Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

## Woodpeckers – Cardiff – Welsh Promise Case Study

Woodpeckers is an Out of School Childcare Club located at Whitchurch Primary School in Cardiff. The setting is registered to care for up to 106 children aged from 4 to 12 years providing Breakfast, Afterschool and Holiday Clubs.

Woodpeckers decided to enroll on Welsh Promise in July 2024. Sian, the manager, was keen to increase the club's use of Welsh:

*"We decided to enrol on The Welsh Promise because we already used some incidental Welsh in the setting and thought it would be a great way to learn more. It was important for us to increase the use of Welsh, but it had to be in a fun way to engage the children and staff alike!"*

Woodpeckers completed a self-assessment to fully understand the amount of Welsh they were already using in the setting and with the support from Megan Morris, Welsh Language Childcare Business Development Officer, and the tailormade action plan, Sian and the staff at Woodpeckers, dedicated much of their time over the summer to increase the use of Welsh within the setting, when communicating with families and by ensuring the Welsh language was both seen and heard throughout.

*"We have set up a Welsh area and try to think of new ways to include Welsh in a fun way in our everyday activities. We started the Welsh Word of the Day, which has enabled us to have fun and learn new words along the way . We also display our craft activity bilingually now which is put on our notice board outside."*

The children now answer the register in Welsh and are surrounded by the Welsh Culture, having access to Welsh language puzzles and jigsaws. Welsh language books are readily available in the reading corner and the setting has taken full advantage of our members area on the website by displaying Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs Welsh language resources and posters. Woodpeckers have also adapted their website to include the use of incidental Welsh.

Croeso i Woodpeckers

Diolch am ymweld â thudalen we Woodpeckers.

Woodpeckers submitted evidence of all the actions they took to complete their action plan, and all their hard work which led to them being awarded the Bronze Welsh Promise.

*"We have found the support from Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs has rejuvenated our enthusiasm on our Welsh learning journey. They have given us the tools to think about how Welsh is used in our setting. This has helped us think out of the box and make the activities fun and engaging. The staff are feeling more confident in our approach to Welsh."*

Woodpeckers are committed to continuing to increase their use of Welsh and they hope to be using basic Welsh, every day, and helping children be bilingual where they may not be able to at home. This commitment also includes dedicating a whole week in the holiday club to all things Welsh.

*"We have enjoyed learning along with the children in a fun and engaging way! We will continue to bring Welsh into the setting, thinking of new ways to engage the children"*



Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

## Woodpeckers – Caerdydd – Astudiaeth Achos yr Addewid Cymraeg

Clwb Gofal Plant All-Ysgol yw Woodpeckers sydd wedi'i leoli yn Ysgol Gynradd yr Eglwys Newydd yng Nghaerdydd. Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i ofalu am hyd at 106 o blant rhwng 4 a 12 oed sy'n darparu Clybiau Brecwast, Ôl-Ysgol a Gwyliau.

Penderfynodd Woodpeckers gofrestru ar yr Addewid Cymraeg ym mis Gorffennaf 2024. Roedd Sian, y rheolwr, yn awyddus i gynyddu defnydd y clwb o'r Gymraeg:

*"Fe benderfynon ni gofrestru ar Yr Addewid Cymraeg oherwydd ein bod ni eisoes wedi defnyddio rhywfaint o Gymraeg achlysurol yn y lleoliad ac yn meddwl y byddai'n ffordd wych o ddysgu mwy. Roedd hi'n bwysig i ni gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, ond roedd yn rhaid I hyn fod mewn ffordd hwyliog i ennyn diddordeb y plant a'r staff fel ei gilydd!"*

Cwblhaodd Woodpeckers hunanasesiad i ddeall yn llawn faint o Gymraeg yr oeddent eisoes yn ei defnyddio yn y lleoliad, a gyda chefnogaeth Megan Morris, Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant Cymraeg, a'r cynllun gweithredu pwrpasol, fe neilltuodd Sian a'r staff yn Woodpeckers lawer o'u hamser dros yr haf i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y lleoliad wrth gyfathrebu â theuluoedd a thrwy sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei gweld a'i chlywed drwyddo draw.

*"Rydym wedi sefydlu ardal Gymraeg ac yn ceisio meddwl am ffyrdd newydd o gynnwys y Gymraeg mewn ffyrdd hwyliog yn ein gweithgareddau bob dydd. Dechreuon ni Gair Cymraeg y Dydd, sydd wedi ein galluogi i gael hwyl a dysgu geiriau newydd ar hyd y ffordd . Rydym hefyd yn arddangos ein gweithgareddau crefft yn ddwyieithog yn awr ar ein hysbysfwrdd y tu allan."*

Mae'r plant bellach yn ateb y gofrestr yn Gymraeg ac yn cael eu hamgylchynu gan y Diwylliant Cymraeg, gan gael mynediad at bosau a jig-sos Cymraeg. Mae llyfrau Cymraeg ar gael yn rhwydd iddynt yn y gornel ddarllen, ac mae'r lleoliad wedi manteisio'n llawn ar ardal ein haelodau ar y wefan drwy arddangos adnoddau a phosteri Cymraeg Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs. Mae Woodpeckers hefyd wedi addasu eu gwefan i gynnwys defnyddio Cymraeg achlysurol.

Croeso i Woodpeckers

Diolch am ymweld â thudalen we Woodpeckers.

Cyflwynodd Woodpeckers dystiolaeth o'r holl gamau a gymerwyd ganddynt i gwblhau eu cynllun gweithredu, a'u holl waith caled, a olygodd dyfarnu'r Addewid Cymraeg Efydd iddynt.

*"Rydym wedi canfod bod cefnogaeth Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs wedi adfywio ein brwdfrydedd ar ein taith dysgu-Cymraeg. Maen nhw wedi rhoi'r offer inni allu meddwl am sut mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio yn ein lleoliad. Mae hyn wedi ein helpu i feddwl y tu allan o'r bocs a gwneud y gweithgareddau'n hwyl ac yn ddifyr. Mae'r staff yn teimlo'n fwy hyderus yn ein hagwedd tuag at y Gymraeg."*

Mae Woodpeckers wedi ymrwymo i barhau i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg ac maent yn gobeithio bod yn defnyddio Cymraeg sylfaenol, bob dydd, a helpu plant i fod yn ddwyieithog lle nad ydynt yn gallu bod felly gartref. Mae'r ymrwymiad hwn hefyd yn cynnwys neilltuo wythnos gyfan yn y clwb gwyliau i bopeth Cymraeg.

*"Rydyn ni wedi mwynhau dysgu gyda'r plant mewn ffordd hwyliog a difyr! Byddwn yn parhau i ddod â'r Gymraeg i'r lleoliad, gan feddwl am ffyrdd newydd o ennyn diddordeb y plant."*

